Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Gaeaf 2015/16

YN Y RHIFYN HWN ...

Rhoi sylw i ymchwil
Digwyddiadau i ddod
Newyddion am Staff
Trefniadau cyllido newydd
Cyhoeddiadau diweddar



Dyfrig Hughes a Catrin Plumpton yn cyflwyno yn ESPACOMP 2015

Croeso i gylchlythyr Gaeaf 2015/16 y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME)

Yn y rhifyn hwn, rydym yn canolbwyntio ar lwyddiannau diweddar a gweithgareddau ymchwil yn CHEME dros y chwe mis diwethaf. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys: erthygl ar brosiect gwrth-fwlio KiVa yn tynnu sylw at ysgolion fel lleoliadau pwysig ar gyfer ymchwil iechyd y cyhoedd, ac ymchwil i driniaethau ar gyfer clefydau prin. Mae'r cyhoeddiadau diweddaraf o CHEME yn cynnwys adolygiad o ddulliau gwerthuso economaidd ar sail treial - ac amcangyfrifon newydd o'r achosion mynych o iselder heb ei drin mewn cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau golwg gwan yn y GIG.

Mae mwy o wybodaeth am ymchwil, addysgu a gweithgareddau cefnogi'r GIG ar gael ar ein gwefan: cheme.bangor.ac.uk neu cysylltwch â'n gweinyddwr Ann Lawton: cheme@bangor.ac.uk. Dilynwch ni ar Twitter @CHEMEBangor a @ProfRTEdwards.

Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards a'r Athro Dyfrig Hughes

Cyd-gyfarwyddwyr CHEME

RHOI SYLW I YMCHWIL..

Economeg cyffuriau amddifad

Mae Dyfrig Hughes a'i dîm yn cynnal rhaglen ymchwil i gyffuriau amddifad gan gynnwys ymchwiliad i sut y gallai defnyddio hen gyffuriau at ddibenion newydd arwain at driniaethau mwy cost-effeithiol (gydag Elin Haf Davies), asesiad o broffidioldeb a gwerth cwmnïau cyffuriau amddifad (gyda Dr Jannine Poletti Hughes, Prifysgol Lerpwl), astudiaeth o ddewisiadau y cyhoedd o ran cyllido cyffuriau amddifad (Siobhan Bourke a Catrin Plumpton), ac asesiadau o gost-effeithiolrwydd triniaethau ar gyfer neuromyelitis optica (gyda Siobhan Bourke a Dr Anu Jacob, Canolfan Walton), a polyarteritis nodosa (gydag Elin Haf Davies a'r Athro Paul Brogan, UCL).

Ymchwil i fentrau gwrth-fwlio ysgolion – rhaglen KiVA

the KiVa programme

Mae Cronfa Kings (2013) wedi gwneud sylwadau ar bwysigrwydd ysgolion fel lleoliadau ar gyfer rhaglenni iechyd y cyhoedd, a chafodd rhaglenni sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â bwlio gryn sylw yn eu hadroddiad 'Improving the public's health, a resource for local authorities'. Mae'r Uned Ymchwil Gymdeithasol yn Dartington yn gweithredu ac yn gwerthuso rhaglen Gwrth-fwlio KiVa (a ddaeth o'r Ffindir) ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae'r gwerthusiad hwn yn cael ei gynnal mewn partneriaeth â'r Ganolfan Ymyrraeth Gynnar ar Sail Tystiolaeth ym Mhrifysgol Bangor a'r Children's Early Intervention Trust, gyda chefnogaeth datblygwr y rhaglen, yr Athro Christina Salmivalli.

Mae Joanna Charles a Rhiannon Tudor Edwards o CHEME wedi cynnal dadansoddiadau microgostau ochr yn ochr â'r gwerthusiad i ddarparu costau gweithredu KiVa yng Nghymru yn ei flwyddyn gyntaf.

I gael mwy o wybodaeth am raglen KiVa gweler http://www.kivaprogram.net/wales

DIGWYDDIADAU I DDOD..

Cwrs Byr 2 Ddiwrnod - Economeg Iechyd ar gyfer Ymarfer ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd 14eg-16eg Mawrth 2016

£775 fydd cost y cwrs a bydd yn cynnwys prydau bwyd a llety o 4pm ddydd Llun 14 Mawrth i 2:45 pm ddydd Mercher 16 Mawrth yn y Ganolfan Rheolaeth, Bangor. Bydd yn bosib cofrestru tan 12 Chwefror 2016.

Mae ambell le ar gael o hyd. I gofrestru a thalu, cysylltwch â: Mrs Ann Lawton yn cheme@bangor.ac.uk

Colocwiwm Ffarmacoleg Clinigol

Bydd Dyfrig Hughes yn cynnal y Gynhadledd Ffarmacoleg Clinigol ym mis Mai. Bydd y cyfarfod chwe-misol hwn yn dwyn ynghyd academyddion a chlinigwyr i gyflwyno ymchwil gysylltiedig â ffarmacoleg glinigol a therapiwteg.

Seminarau amser cinio CHEME

Dyddiadau a siaradwyr sydd wedi eu cadarnhau ar gyfer 2016:

- 1 Mawrth - Yr Athro Jo Coast, Prifysgol Bryste
- 3 Mai - Rebecca Warboys, Public Health England
- 7 Mehefin - Dr Manuel Gomes, London School of Hygiene and Tropical Medicine
- 5 Gorffennaf - Yr Athro Sarah Byford, Kings College Llundain
- 4 Hydref- yr Athro Colin Green, Prifysgol Exeter
- 1 Tachwedd - yr Athro Katherine Payne, Prifysgol Manceinion

Rydym yn gobeithio rhannu podlediadau a sleidiau o seminarau os bydd y cyflwynwyr yn cytuno. I gael rhagor o wybodaeth am y gyfres seminarau cysylltwch â l.tuersley@bangor.ac.uk

NEWYDDION STAFF...

Yn ddiweddar penodwyd Dyfrig Hughes yn athro er anrhydedd yn yr Adran Ffarmacoleg Foleciwlaidd a Chlinigol ym Mhrifysgol Lerpwl. Mae hefyd wedi cael ei ddewis i fod yn aelod economegydd iechyd o Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan, sy'n cael y dasg o wneud penderfyniadau ynghylch meddyginiaethau newydd fydd ar gael yng Nghymru.

Cymerodd Elin Haf Davies ran mewn ras hwylio 3000 o filltiroedd ar draws yr Iwerydd. Roedd Elin yn codi arian ar gyfer Findacure www.findacure.org.uk, ac ar yr un pryd roedd yn codi ymwybyddiaeth o'r elusen hon sydd â'r bwriad o gefnogi cleifion â chlefydau prin ac yn arbennig ddefnyddio hen gyffuriau at ddibenion newydd. Dros y blynyddoedd mae Elin wedi codi bron i £ 300,000 ar gyfer yr elusennau y mae'n eu cefnogi.

Mae Laura Timmis a Tania Seale (sydd yn astudio ar gyfer PhD gyda Chanolfan Gogledd Cymru ar gyfer Ymchwil Gofal Sylfaenol dan nawdd Gofal Canser Tenovus) - ill dwy yn

wirfoddolwyr ac yn codi arian ar gyfer Gofal Canser Tenovus. Ym mis Chwefror noddwyd Laura a Tania i redeg ras 10km noddedig i godi arian ar gyfer Gofal Canser Tenovus, gan godi cyfanswm o £ 402.50!

Llongyfarchiadau i Ned Hartfiel ar lwyddo yn ei arholiad llafar PhD. Pwnc PhD Ned oedd 'A multiple method approach to economic evaluation in public health: yoga for managing musculoskeletal conditions in the workplace'.

Ned Hartfiel gyda'i draethawd hir a'i oruwchwylwraig Rhiannon Tudor Edwards

Yn ddiweddar, ymunodd Alan Moore â CHEME i wneud PhD yn ymwneud ag Economeg Clefyd Motor Niwron (MND). Dan nawdd Cymdeithas Clefyd Motor Niwron, ac o dan gyfarwyddyd Dyfrig Hughes a'r Athro Carolyn Young yng Nghanolfan Walton, bydd PhD Alan yn cynhyrchu tystiolaeth werthfawr i gefnogi darpariaeth gofal i gleifion ag MND.

Dyfarnwyd efrydiaeth PhD o dan nawdd MRC i Dan McManus ar ddatblygu dadansoddiadau pharmacometrig-pharmacoeconomaidd cysylltiedig mewn datblygu cyffuriau clinigol. Dan oruchwyliaeth Dyfrig Hughes a Dr Steven Lane o Brifysgol Lerpwl, ac mewn cydweithrediad â Pfizer, bwriad Dan yw datblygu modelau i ddarparu amcangyfrifon cynnar o gost-effeithiolrwydd datblygu cyffuriau.

Nawdd Newydd

Mae Dyfrig Hughes yn gyd-ymgeisydd ar y treial £1.5 miliwn ar Lawdriniaeth Feitrol Gynnar a ariannwyd yn ddiweddar gan Sefydliad Prydeinig y Galon. Dan arweiniad yr Athro Simon Guy o Ysbyty Wythenshawe, bwriad y treial hwn gyda 325 o gleifion fydd rhoi prawf ar y ddamcaniaeth fod strategaeth sy'n cynnwys rhoi llawdriniaeth falf feitrol gynnar yn rhagori ar strategaeth sy'n cynnwys aros a gwylio a dilyn canllawiau ar gyfer llawdriniaeth ar gleifion ag adlifo meitrol primaidd difrifol ond sydd heb symptomau neu â symptomau ysgafn. Gallai'r goblygiadau economaidd fod yn sylweddol pe bai'n cael ei ddangos bod llawdriniaeth gynnar yn llwybr clinigol mwy effeithiol.

Bydd Rhiannon Tudor Edwards a Carys Jones yn gyfrifol am werthusiad economaidd o'r rhaglen ymchwil PrAISED - Hybu Gweithgarwch, Annibyniaeth a Sefydlogrwydd mewn Dementia Cynnar. Grant £2.8miliwn gan NIHR yw hwn, dan arweiniad yr Athro Rowan Harwood, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Nottingham.

Digwyddiadau Diweddar

Sioe Arddangos Ymchwil

Chwaraeodd CHEME ran amlwg gyda chyflwyniadau llafar a phoster yn Sioe Arddangos Ymchwil Iechyd a Meddygol agoriadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bangor Betsi Cadwaladr. Daeth Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol Cymru, i'r gynhadledd ynghyd â dros 110 o gynadleddwyr eraill.

Gweithdy Rhwydwaith Canolfannau MRC ar gyfer Ymchwil i Dreialon Methodoleg

Cyfrannodd Colin Ridyard, Dyfrig Hughes, a Lorna Tuersley at weithdy ar Gynlluniau Dadansoddi Economeg Iechyd (HEAP) ym Mryste. Daeth dros 50 o economegwyr iechyd ynghyd i'r gweithdy a'r bwriad oedd agor deialog a chychwyn y gwaith o ddatblygu templed HEAP i'w ddefnyddio mewn treialon clinigol. Rhoddodd Dyfrig Hughes gyflwyniad ar hynt a helynt HEAPs yng nghyd-destun dau Hap Dreial Rheoledig a gwblhawyd yn ddiweddar.

Digwyddiadau Diweddar -parhad

Grŵp Astudio Economegwyr Iechyd (HESG)

Cynhaliwyd cyfarfod Gaeaf HESG eleni ym Manceinion. Cyflwynodd Nathan Bray y canfyddiadau ar gyfer y gwaith dilynol ar ei broject chwe mis Warm Homes for Health a chafwyd trafodaeth. Cyflwynodd myfyrwraig PhD Laura Timmis ei dadansoddiad o ddulliau gwahanol o gynhyrchu priodoleddau a lefelau yn DCE wedi ei gymhwyso i waith dilynol ar ganser gynaecolegol.

Cynhadledd Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd

Y siaradwr gwadd yng Nghynhadledd flynyddol yr Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd oedd Dr Theresa Shaw (Prif Weithredwr y Sefydliad Astudiaethau Nyrsio). Cyflwynodd myfyrwyr PhD CHEME Siobhan Bourke a Beth Thompson eu hymchwil.

Cyhoeddiadau Diweddar

Ridyard CH, Dawoud DMM, Tuersley LV, Hughes DA. A Systematic Review of Patients' Perspectives on the Subcutaneous Route of Medication Administration. Patient. 2016. DOI 10.1007/s40271-015-0160-x

Hughes D, Charles J, Dawoud D, Edwards RT, Holmes E, Jones C, Parham P, Plumpton C, Ridyard C, Lloyd-Williams H, Wood E, Yeo ST. Conducting economic evaluations alongside randomised trials: Current methodological issues. Pharmacoeconomics. 2016 Jan. DOI 10.1007/s40273-015-0371-y

Ridyard CH, Hughes DA, DIRUM Team. Review of resource-use measures in UK economic evaluations. In: PSSRU Unit Costs of Health and Social Care 2015: 22-31. Compiled by Lesley Curtis and Amanda Burns. University of Kent 2015

Jenkinson MD, Javadpour M, Haylock BJ, Young B, Gillard H, Vinten J, Bulbeck H, Das K, Farrell M, Looby S, Hickey H, Preusser M, Mallucci CL, Hughes D, Gamble C, Weber DC. The ROAM/EORTC-1308 trial: Radiation versus Observation following surgical resection of Atypical Meningioma: study protocol for a randomised controlled trial. Trials. 2015 Nov 14;16:519.

Powell G, Holmes EA, Plumpton CO, Ring A, Baker GA, Jacoby A, Pirmohamed M, Marson AG, Hughes DA. Pharmacogenetic testing prior to carbamazepine treatment of epilepsy: patients' and physicians' preferences for testing and service delivery. Br J Clin Pharmacol. 2015 Nov;80(5):1149-59

Berry V, Axford N, Blower S, Taylor RS, Edwards RT, Tobin K, Jones C, Bywater T. The effectiveness and micro-costing analysis of a universal, school-based, social-emotional learning programme in the UK: A cluster-randomised controlled trial. School Mental Health. 2015 Oct, doi: 10.1007/s12310-015-9160-1

Richter T, Nestler-Parr S, Babela R, Khan ZM, Tesoro T, Molsen E, Hughes DA. International Society for Pharmacoeconomics and Outcomes Research Rare Disease Special Interest Group. Rare Disease Terminology and Definitions-A Systematic Global Review: Report of the ISPOR Rare Disease Special Interest Group. Value Health. 2015 Sep;18(6):906-14.

Nollett CL, Bray N, Bunce C, Casten RJ, Edwards RT, Hegel MT, Janikoun S, Jumbe SE, Ryan B, Shearn J, Smith DJ, Stanford M, Xing W, Margrain TH. (2015). High Prevalence of Untreated Depression in Patients Accessing Low-Vision Services. Ophthalmology. 2015 Aug. pii: S0161-6420(15)00680-6.

Quinn C, Toms G, Jones C, Brand A, Edwards RT, Sanders F, Clare L. A pilot randomized controlled trial of a self-management group intervention for people with early-stage dementia (The SMART study). International Psychogeriatrics. 2015. In press. doi:10.1017/S1041610215002094 Economics & Outcome Research: Open Access 1:105. doi: 10.4172/heor.1000105

Jones C, Edwards RT, Nelis SM, Jones IR, Hindle JV, Thom JM, Cooney J, Clare L. Cost-effectiveness findings from the Agewell pilot study of behaviour change to promote health and wellbeing in later life. Health Economics & Outcome Research: Open Access 2015;1:105. doi: 10.4172/heor.1000105

Blair J, Gregory JW, Hughes D, Ridyard CH, Gamble C, McKay A, Didi M, Thornborough K, Bedson E, Awoyale L, Cwiklinski E, Peak M. Study protocol for a randomised controlled trial of insulin delivery by continuous subcut - aneous infusion compared to multiple daily injections.Trials.2015 Apr;16:163.

Ridyard CH, Hughes DA, DIRUM Team. Taxonomy for methods of resource use measurement. Health Econ. 2015 Mar;24(3):372-8.

Cyflwyniadau

Rhoddodd Dyfrig Hughes y prif gyflwyniad yn y sesiwn lawn ar 'The Economics of medication adherence' yng nghynhadledd yr European Society for Patient Adherence, Compliance and Persistence (ESPACOMP) eleni yn Prague. Gyda Catrin Plumpton a Dr Mickaël Hiligsmann o Brifysgol Maastricht, cyflwynodd weithdy ar ddulliau gwerthuso economaidd a'u cymhwysiad i ymlyniad at feddyginiaeth. Bydd Dyfrig Hughes yn cadeirio'r Pwyllgor Trefnu Gwyddonol ar gyfer y gynhadledd ESPACOMP 2016 yn Lisbon.

Yn Sioe Arddangos Ymchwil Prifysgol Bangor eleni, cyflwynodd Seow Tien Yeo ar y 'Cost and consequences of earlier diagnosis of lung cancer: Lowering the current NICE threshold for higher-risk patients across Wales and England', cyflwynodd Joanna Charles 'Health Care Resource Allocati-on Decisions Assessing the BCUHB Respiratory Care Pathway - Program-me Budgeting Marginal Analysis in Action' a chyflwynodd Nathan Bray yn Sioe Arddangos Bwrdd Iechyd Prifysgol Bangor Betsi Cadwaladr ar 'Mobility and Quality of Life: Development of a novel mobility-related utility measure for economic evaluation'.

cheme.bangor.ac.uk
cheme@bangor.ac.uk
01248 382153
@CHEMEBangor

Centre for Health Economics & Medicines Evaluation
Ardudwy, Normal Site, Bangor University,
Bangor, Gwynedd, LL57 2PZ